MC
MATERION
CASNEWYDD
Papur newydd swyddogol Cyngor Dinas Casnewydd

GWERTHIANT FRIARS WALK WEDI'I GWBLHAU'N LLWYDDIANNUS

Mae Friars Walk bellach o dan berchnogaeth newydd ar ôl i'r gwerthiant gan Queensberry i'r cwmni buddsoddi o Ganada, Talisker Corporation, gael ei gwblhau'n llwyddiannus.

Croesawyd y gwerthiant, a fydd yn sicrhau y gall y cyngor ad-dalu'r benthyciad a gymerodd i ariannu'r cynllun yn llawn, gan Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Debbie Wilcox.

Dywedodd y Cynghorydd Wilcox:

"Credaf fod hyder Talisker a'i ymrwymiad i Friars Walk yn argoeli'n dda ar gyfer dyfodol y ganolfan a Chasnewydd. Bydd gan y cyngor fudd ariannol parhaus yn y cynllun drwy gyfran fach o'r incwm rhent a fydd yn dod â buddiannau i'r ddinas am sawl blwyddyn i ddod."

Dywedodd David Howard, o gwmni Talisker;

"Rydym yn teimlo'n gyffrous iawn ynglŷn â'r ychwanegiad diweddaraf at ein portffolio o eiddo yn y DU. Mae Friars Walk yn cynnig cynllun ystyrlon, modern gyda ffrwd incwm sefydlog â llawer o botensial ar gyfer twf yn y dyfodol. "

"Rydym yn edrych ymlaen at weithio'n agos â'r gymuned, ein tenantiaid a chyngor y ddinas i sicrhau bod Friars Walk yn parhau i aeddfedu yn ganolbwynt gwirioneddol ar gyfer Casnewydd."

CYNLLUN PEILOT I LEIHAU TAGFEYDD TRAFFIG YN LLWYDDIANT

Roedd cynllun peilot i leihau tagfeydd o amgylch Canolfan Ailgylchu Gwastraff Cartref y ddinas mor llwyddiannus, mae Cyngor Dinas Casnewydd am barhau gyda'r cynllun dros yr haf.

Bydd llif y traffig ger Ffordd y Dociau yn cael ei wrthdroi yn ystod penwythnosau yn unig nes caiff adolygiad llawn o systemau traffig ar ddiwrnodau'r wythnos ei gwblhau.

Yn ystod y cynllun peilot, golygodd gwrthdroi llif y traffig fod llai o gerbydau'n aros ar y A48, ac felly roedd gwell diogelwch traffig.

Y sbardun ar gyfer y newid oedd Rownd Derfynol Cynghrair y Pencampwyr fis diwethaf lle rhagwelwyd tagfeydd wrth i gannoedd ar filoedd ymweld â Chymru.

Hefyd, sbardunodd y digwyddiad newid mewn casgliadau gwastraff ac ailgylchu dros ŴYl y Banc, a oedd hefyd mor llwyddiannus fel bod Cyngor Dinas Casnewydd a Wastesavers yn bwriadu gwneud yr un fath ar gyfer pob gŵyl banc, ac eithrio'r Nadolig, gan ddechrau gyda chasgliadau Gŵyl y Banc mis Awst.

Mae hyn yn golygu y bydd casgliadau bin ac ailgylchu yn aros yr un fath ag arfer, yn hytrach na diwrnod yn hwyr ar gyfer Gwyliau'r Banc ar ddydd Llun.

Dywedodd y Cynghorydd Roger Jeavons, Aelod Cabinet dros Wasanaethau Stryd Cyngor Dinas Casnewydd, y bydd y newidiadau'n helpu i wella gwasanaethau gwastraff yn y ddinas:

"Roedd y ddau gynllun peilot o amgylch y Ganolfan Ailgylchu Gwastraff Cartref a chasgliadau Gŵyl y Banc yn llwyddiannus iawn.

"Cawsom lawer o adborth cadarnhaol gan drigolion a staff a dyma pam ein bod yn cyflwyno'r newidiadau.

"Byddwn yn treialu gwrthdroi'r llif traffig yn ystod yr haf ac os bydd adborth da o hyd, byddwn yn ei gadw'n drefniant parhaol.

"Bydd casgliadau gwastraff Gŵyl y Banc yn parhau ar gyfer mis Awst ac rydym yn falch o ddweud y bydd Wastesavers yn gwneud yr un peth," meddai'r Cynghorydd Jeavons.

Rydym hefyd yn croesawu'r newyddion bod trigolion yn helpu'r cyngor i gyrraedd ei dargedau ailgylchu gwastraff gan Llywodraeth Cymru.

Mae canlyniadau interim a ryddhawyd ym mis Mai yn dangos bod perfformiad cyffredinol y cyngor ar ailgylchu, hyd at fis Rhagfyr 2016, wedi gwella 6 y cant i 62 y cant - ein cyfradd uchaf - gan ragori ar ein targedau 4 y cant.

I gael rhagor o wybodaeth am beth ellir ei ailgylchu ac i gadarnhau pryd mae eich diwrnodau casglu, ewch i'n gwefan **www.newport.gov.uk/Recycling**

TEITHIAU CERDDED CASNEWYDD – COFRESTRWCH NAWR

Nawr yw'r amser i ddod o hyd i'ch esgidiau cerdded unwaith eto a chofrestru ar gyfer digwyddiad Teithiau Cerdded Casnewydd.

Bydd ail her nenlinell y ddinas yn cael ei chynnal ddydd Sadwrn 9 Medi.

Bydd cyfres o deithiau cerdded gan gynnwys teithiau byr sy'n addas i deuluoedd â phlant iau a theithiau hirach ar gyfer y rheini sy'n chwilio am fwy o her.

Yn amrywio o 1.5 i 16 milltir, a rhwng teithiau tywys a hunan-dywys, bydd rhywbeth ar gyfer pob gallu.

Bydd pob taith gerdded yn dechrau ac yn gorffen yn y Ganolfan Byw'n Weithgar ym Metws unwaith eto, a byddant yn mynd drwy ardaloedd trawiadol sy'n galluogi cerddwyr i fwynhau cefn gwlad amrywiol Casnewydd.

Mae Cyngor Casnewydd a Casnewydd Fyw yn gweithio gyda Dewch i Gerdded Cymru, grwpiau cerdded, gwirfoddolwyr a sefydliadau partneriaeth i sicrhau y bydd Cerdded Casnewydd 2017 yn llwyddiant mawr.

Bydd digwyddiad eleni yn cefnogi'r Gymdeithas Alzheimer. I gael rhagor o wybodaeth ac i gofrestru ewch i **www.newport.gov.uk/ walktheport**

DEBYD UNIONGYRCHOL - Y FFORDD HAWSAF ODALU'R DRETH GYNGOR

Wyddech chi mai debyd uniongyrchol yw'r ffordd hawsaf a diogelaf o dalu'ch treth gyngor?

Does dim ciwio, dim costau postio, dim angen cofio talu ac mae dewis o bedwar dyddiad talu – y 1af, y 5ed, y 12fed neu'r 20fed o'r mis. Hefyd, gallwch wneud cais i ledaenu'r gost dros 12 mis yn hytrach na'r 10 mis arferol.

Drwy dalu drwy ddebyd uniongyrchol, rydych yn helpu i gadw'r costau gweinyddol yn isel sy'n helpu i gyfeirio arian i wasanaethau hanfodol eraill. I dalu drwy ddebyd uniongyrchol, ewch i **www.newport.gov.uk/counciltax**

YMUNWCH Â NI GYFER GŴYL FWYD FLASUS ARALL!

Bydd Teenchef yn dychwelyd ar gyfer yr ŵyl eleni

Am y seithfed blwyddyn yn olynol, bydd Gŵyl Fwyd a Diod Tiny Rebel Casnewydd yn dychwelyd i ganol dinas Casnewydd.

O 9am ddydd Sadwrn 7 Hydref, bydd y Stryd Fawr a Marchnad Casnewydd yn dod yn fyw, gan fyrlymu gyda stondinau bwyd a diod, arddangosiadau gan gogyddion sy'n adnabyddus yn lleol ac yn genedlaethol, theatr stryd, cerddoriaeth a llawer mwy.

Bydd rhai o'r uchafbwyntiau'n cynnwys:

- o stondinau bwyd
- Arddangosiadau gan gogyddion
- Rownd derfynol Teenchef
- Sgyrsiau a sesiynau blasu a sgiliau
- Gweithgareddau i blant, gan gynnwys peintio wynebau a modelu balwnau
- Adloniant stryd

Bragdy Tiny Rebel o Gasnewydd yw'r prif noddwr am yr ail flwyddyn. Unwaith eto bydd yn dod â'r holl hwyl ac angerdd sy'n mynd i mewn i gwrw a'i fariau. Bydd yn gwahodd ymwelwyr i flasu danteithion a ysbrydolir gan y bwydlenni arbennig â dylanwad cwrw a weinir yn nhri bar Tiny Rebel (Casnewydd, Caerdydd a Thŷ-du), ac i ymuno â'r hud coginio a grëir gan ei gogyddion arloesol.

Rydym hefyd yn ddiolchgar iawn i'n noddwyr eraill y mae eu cefnogaeth wedi'i gwneud yn bosibl i'r digwyddiad dyfu blwyddyn ar ôl blwyddyn.

Eleni, cawn ein cefnogi gan Westy'r Celtic Manor, Newport Now a'r Golden Lion, Magwyr.

I gael rhagor o wybodaeth am y digwyddiad eleni, ewch i **www.newportfoodfestival.co.uk,** hoffwch ni ar **Facebook @newportfoodfestival** neu dilynwch ni ar **Twitter @NewportFoodFest**

DIGONEDD I'W WNEUD DROS WYLIAU'R HAF

Chwilio am rywle i fynd â'ch plant yn ystod gwyliau'r haf? Nid oes angen edrych ymhellach na'r llyfrgell leol.

Mae digwyddiadau'n cynnwys 'cuddwisg anifeiliaid' lle gall plant wneud mygydau neu ddysgu sut i ysgrifennu negeseuon cudd yn y sesiynau 'dylunio peiriant codio'.

Gallwch hefyd gael hwyl yn gwneud gêm i herio eraill yn y llyfrgell gan ddefnyddio a chodio microbit, ond gwnewch yn siŵr eich bod yn trefnu lle ymlaen llaw - nifer cyfyngedig o leoedd sydd ar gael.

Os ydych yn hoffi heriau creadigol beth am greu plac drws yn defnyddio llythrennau anifeiliaid neu greu cerdyn adnabod asiant eich hun? Dydd Llun 24 Gorffennaf bydd sesiwn 'dylunio peiriant codio' yn Llyfrgell Betws a dydd Mawrth 25 Gorffennaf gall plant ymweld â Llyfrgell Tŷ-du i wneud matiau diodydd siâp crwban neu froga naid.

Dydd Mercher 26 Gorffennaf mae nifer o ddigwyddiadau ar yr un diwrnod - yn Llyfrgell Caerllion mae sesiwn 'cuddwisg anifeiliaid; 'dylunio peiriant codio' yn Llyfrgell Ringland a 'cuddwisg anifeiliaid' yn Llyfrgell Pillgwenlli.

Mae digwyddiadau mewn llyfrgelloedd yn parhau drwy gydol mis Awst. Am fanylion llawn ewch i **www.newport.gov.uk/whatson**

Mae Casnewydd Fyw yn cynnal penwythnos o hwyl i'r teulu yn ystod gŵyl theatr stryd Big Splash gyda llawer o adloniant am ddim ar 22 a 23 Gorffennaf. Am fanylion llawn ewch **www.newportlive.co.uk**

GWAITH FFORDD

Gall trigolion edrych i weld pa waith ffordd sy'n mynd rhagddo o amgylch y ddinas i'w helpu i osgoi oedi ar eu siwrnai.

Caiff y rhestr o'r gwaith ffordd sy'n digwydd yn y ddinas ac o'i hamgylch ei diweddaru bob wythnos ac mae ein gwefan hefyd yn rhoi dolen at wefan Traffig Cymru ar gyfer rhybuddion am oedi a all fod yn cael eu hachosi gan ddamweiniau ffordd.

Os ydych am gynllunio eich taith i osgoi gwaith ffordd o amgylch y ddinas, ewch i'n gwefan **www.newport.gov.uk/roadworks**

CEFNOGI BATON Y FRENHINES

Bydd Casnewydd yn croesawu un o gymalau Taith Gyfnewid Baton y Frenhines ar gyfer Gemau'r Gymanwlad 2018 y Gold Coast.

Mae ein dinas yn un o nifer o gymunedau yng Nghymru y bydd Baton y Frenhines yn ymweld â nhw yn ystod ei daith 388 diwrnod, 230,000 cilomedr o hyd, drwy'r Gymanwlad gyfan ar ei ffordd i'w gyrchfan terfynol – Seremoni Agoriadol Gemau'r Gymanwlad 2018 y Gold Coast ar 4 April 2018.

Bydd y Baton yn ymweld â Chasnewydd ddydd Mercher 6 Medi eleni, gan adael Stadiwm Casnewydd am 8am ac ymlaen i Bont Gludo Casnewydd, yna Ysgol Gynradd Pillgwenlli cyn mynd i Sgwâr John Frost ac ymlaen i Ganolfan Casnewydd.

Mae Cyngor Dinas Casnewydd yn gobeithio y bydd cynifer o bobl â phosibl yn dod i gefnogi cludwyr y baton ar ei daith dryw'r ddinas.

UNDEB CREDYD CASNEWYDD

Mae Undeb Credyd Casnewydd yn gwmni cydweithredol ariannol nid er elw sy'n cael ei weithredu o Farchnad Dan Do Casnewydd.

Mae mwy na 3,000 o oedolion a dros 1,000 o blant yn aelodau sy'n cael eu hannog i feithrin patrwm cynilo rheolaidd, hyd yn oed os yw hyn ond ychydig bunnoedd yr wythnos neu fis.

Drwy ymuno ag Undeb Credyd Casnewydd byddwch yn buddsoddi yn eich cymuned a thrwy dyfu'r busnes gall barhau i ddatblygu rhaglenni sy'n ymrwymo i sicrhau gwell llythrennedd ariannol, hyder a lles ar gyfer ei aelodau.

Mae'r Undeb Credyd yn cynnig sawl dewis ar gyfer sut i gynilo a'i nod yw ei gwneud mor hawdd â phosibl i aelodau.

Mae dau fath o gyfrif cynilo ar gael ar gyfer oedolion a dau fath o gyfrif cynilo gwahanol ar gyfer aelodau sy'n blant.

Gallwch gynilo ar gyfer gwyliau, dathliadau pen-blwydd arbennig ac un o'r mathau o gynilo mwyaf poblogaidd, y Nadolig. Mae cyfrif cynilo'r Nadolig yn eich galluogi i gynilo drwy gydol y flwyddyn, ond gallwch ond cael gafael ar eich arian rhwng 1 Tachwedd a 31 Rhagfyr gan osgoi'r demtasiwn i godi arian nes bod tymor y Nadolig wedi cyrraedd!

Heb gynilion, ni fyddai Undeb Credyd Casnewydd yn gallu gweithredu gan fod cynilion o'r gronfa arian yn gallu cael eu benthyg gan aelodau eraill.

Mae'r trefnwyr o'r farn, er bod cynilo arian yn gallu bod yn anodd ar incwm isel, fod cynilion bach rheolaidd yn gallu cynyddu'n fuan.

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth, ffoniwch 01633 214913 neu anfonwch e-bost at **info@newportcreditunion.co.uk**

LWFANS AELODAU

Mae lwfans aelodau ar gyfer 2016/17 bellach ar gael i'w gweld ar wefan y cyngor www.newport.gov.uk/allowances

Caiff lefelau eu pennu bob blwyddyn gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ac nid oes gan y cyngor hawl gyfreithiol i'w newid.

MAER NEWYDD YN DECHRAU EI SWYDD

▶ *Ffotograff: Trwy garedigrwydd Peter Ellis*

Cafodd traddodiad sy'n dyddio'n ôl i'r canoloesoedd yng Nghasnewydd ei barhau ar 16 Mai 2017 pan ddaeth y Cynghorydd David Fouweather yn 385fed Maer a'i wraig Paula yn Faeres newydd Casnewydd.

Cafodd y Cynghorydd Fouweather ei eni yng nghartref ei hen dad-cu, yr arwr lleol Tom Toya Lewis, yng Nghasnewydd. Pan oedd ond yn 17 oed, peryglodd Tom ei fywyd er mwyn helpu eraill yn ystod trychineb Dociau Casnewydd yn 1909.

Mae wedi gweithio ers 23 mlynedd yn y Gwasanaeth Carchardai lle mae bellach yn cynorthwyo carcharorion sydd â phroblemau iechyd meddwl ac sy'n gaeth i gyffuriau neu alcohol.

Mae'r tad i ddau yn llywodraethwr ysgol gweithgar, yn cynorthwyo grwpiau lleol fel Canolfan Gymunedol Ridgeway ac yn mwynhau mynd â'i ddau gi am dro.

Yn ystod ei gyfnod fel maer, ei elusennau fydd Gofal Hosbis Dewi Sant, MLT (yr Ymddiriedolaeth Dysgu Cymhellol) ac Amazing Grace Spaces.

Mae Gofal Hosbis Dewi Sant, a leolir yng Nghasnewydd, yn cynnig cymorth a gofal i bobl sydd â salwch sy'n cyfyngu ar fywyd a'u teuluoedd; mae MLT yn helpu pobl ifanc i gyflawni eu llawn botensial, tra bod Amazing Grace Spaces yn elusen sy'n helpu pobl leol mewn argyfwng.

Ym mis Mai, pleidleisiodd trigolion mewn etholiadau er mwyn dewis 50 o bobl i'w cynrychioli ar Gyngor Dinas Casnewydd.

Y Blaid Lafur gafodd y mwyaf o seddi, sef 31, a bydd yn cael ei harwain gan y Cynghorydd Debbie Wilcox ar ôl iddi gael ei phenodi'n unfrydol yng nghyfarfod llawn y cyngor.

Cynghorwyr y Blaid Geidwadol, gyda 12 o seddi, yw'r ail blaid fwyaf a'r Cynghorydd Matthew Evans yw arweinydd y gwrthwynebwyr.

Mae gweddill y cyngor yn cynnwys pedwar aelod o Blaid Annibynnol Casnewydd, dau aelod o'r Democratiaid Rhyddfrydol ac un aelod Annibynnol.

Am fanylion llawn yr holl gynghorwyr, a phwy sy'n cynrychioli eich ward, ewch i **www.newport.gov.uk/council**

Gellir hefyd weld manylion penodiadau i swyddi cabinet, pwyllgorau a chyrff eraill ar y wefan.

Dywedodd y Cynghorydd Wilcox fod Casnewydd yng nghanol newidiadau pellgyrhaeddol. Ymhlith y rhain mae'r Fargen Ddinesig sydd eisoes wedi gweld buddsoddiad o £38m yn cael ei neilltuo ar gyfer ffatri lled-ddargludyddion a allai greu 2,000 o swyddi medrus.

"Mae cwmnïau eraill hefyd yn dangos eu ffydd yn y ddinas fel Carpeo Estate Planning sydd wedi cyhoeddi cynlluniau yn ddiweddar i greu 300 o swyddi yng Nghasnewydd yn ystod y pum mlynedd nesaf.

"Mae gwaith wedi dechrau ar y ganolfan gynadledda yn y Celtic Manor a fydd unwaith eto'n codi proffil y ddinas, yn arbennig ym myd busnes a digwyddiadau rhyngwladol."

Daeth y Cynghorydd Wilcox yn arweinydd y cyngor y llynedd ac ychwanegodd, wrth iddi barhau â'r swydd freintiedig honno, ei bod yn canolbwyntio ar sicrhau dyfodol Casnewydd ond ei bod hefyd yn gwerthfawrogi hanes balch y ddinas.

"Rwy'n benderfynol y bydd y cyngor yn chwarae ei ran wrth ddiogelu pa mor unigryw yw ein dinas tra'n gwneud Casnewydd yn lle gwych weithio ynddo a gwneud busnes, dysgu, byw a magu teulu.

"Does dim dwywaith y bydd heriau o'n blaenau – rydym yn gwybod y bydd cyllidebau ar gyfer pob cyngor ond yn tynhau ac y bydd y galw am wasanaethau, yn enwedig ar gyfer ein trigolion ifancaf ac oedrannus, yn cynyddu'n sylweddol.

"Mae addysg, diogelwch cymunedol, yr amgylchedd, trafnidiaeth a swyddi yn uchel ar ein rhestr blaenoriaethau ar gyfer y blynyddoedd i ddod – ein nod yw darparu gwasanaethau craidd cadarn ar gyfer pobl ein dinas a fydd yn ein cynorthwyo ymhellach yn ein hymdrechion i adeiladu gwell Casnewydd."

CYFNOD CYFFROUS WRTH I GYNGOR NEWYDD DDECHRAU AR EI WAITH

YSGOL FUSNES DROS DRO I AILYMDDANGOS

Yn dilyn llwyddiant yr Ysgol Fusnes Dros Dro yn gynharach eleni, mae'r cyngor yn trefnu un arall i'w chynnal rhwng 11 a 22 Medi ym Marchnad Casnewydd.

Dywedodd y bobl a fynychodd yr ysgol gyntaf, a gynhaliwyd yn y farchnad, ei bod yn ysbrydoliaeth, yn anhygoel ac yn wych.

I gael rhagor o wybodaeth am y digwyddiad yn ystod yr hydref hwn, ac i gofrestru, ewch i **www.popupbusinessschool.co.uk/newport**

GWELLA RHAGOLYGON AR GYFER POBL IFANC

Mae nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) yng Nghasnewydd wedi disgyn i'w lefel isaf erioed.

Yn 2011, roedd 6.7 y cant o bobl ifanc yn gadael Blwyddyn 11 a ddim mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Yn 2016 roedd hyn wedi lleihau dri chwarter i ddim ond 1.7 y cant – yn is na chyfartaledd Cymru.

Mae'r camau a gymerwyd yng Nghasnewydd i wella rhagolygon a chyfleodd pobl ifanc yn cynnwys; gwaith dwys gyda darparwyr addysg a dysgu pellach, gwell gwaith partneriaeth i ddatblygu cyfleoedd a digwyddiadau cyflogaeth a dysgu penodol, a gwaith â ffocws i sicrhau ymgysylltu gwell â phobl ifanc a'u bod yn gallu cael gafael ar y cymorth sydd ei angen arnynt.

TOCYNNAU AWYREN, ELI HAUL, BRECHIADAU!

Gyda digwyddiadau gwyliau'r haf yma, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn annog pobl ifanc i gadw'n ddiogel rhag y frech goch drwy wneud yn siŵr eu bod wedi cael dau ddos o'r brechlyn MMR.

Er gwaetha'r achosion diweddar o'r frech goch yng Nghasnewydd, mae llawer o bobl yn credu bod y frech goch yn glefyd yn y gorffennol – ond mae'r haint yn cylchdroi'n barhaol mewn nifer o wledydd.

Ac wrth i ddigwyddiadau a gwyliau'r haf ddod â ni i gysylltiad â phobl newydd a allai fod wedi'u heintio â'r frech goch, anogir pawb i beidio â chymryd y risg o ddifetha eu hwyl drwy ddal y clefyd hwn a all fod yn ddifrifol iawn.

Mae'r frech goch yn hynod heintus a'r unig ffordd o atal achosion niferus o'r clefyd yw drwy frechu. Dylai pobl ifanc a rhieni plant sydd ddim wedi cael dau ddos o MMR gysylltu â'u meddygfa leol ar unwaith.

Er bod yr achosion diweddaraf o'r frech goch wedi effeithio ar bobl ifanc rhwng 10 a 18 oed yn bennaf, caiff oedolion a gafodd eu geni ers 1970 sydd erioed wedi cael y frech goch na'r brechlyn eu hannog i gysylltu â'u meddygfa, yn enwedig os ydynt yn gweithio gyda phlant.

Caiff y dos cyntaf o MMR ei roi i fabanod rhwng 12 a 13 mis oed, a chaiff yr ail ddos ei roi pan fydd plentyn yn 3 oed a 4 mis, ond nid yw byth yn rhy hwyr i ddal i fyny.

Bydd tua un ym mhob pum plentyn â'r frech goch yn profi cymhlethdodau difrifol fel niwmonia neu lid yr ymennydd. Mae un ym mhob deg plentyn â'r frech goch yn gorfod treulio amser yn yr ysbyty, ac mewn achosion prin gall fod yn angheuol.

Dylai unrhyw un â symptomau - sy'n cynnwys twymyn, peswch, trwyn yn rhedeg, llygaid coch a brech lliw coch nodedig - gadw draw o'r ysgol neu'r gwaith a pheidio â mynychu digwyddiadau mawr.

Dylai rhieni sy'n amau bod gan eu plentyn y frech goch gysylltu â'u meddyg teulu neu Galw Iechyd Cymru ar 0845 46 47.

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

HWB GWARIO AR GYFER PROSIECTAU ADFYWIO PELLACH YN YDDINAS

Mae Cyngor Dinas Casnewydd yn ceisio dod i gytundeb â Llywodraeth Cymru a fydd yn rhyddhau mwy na £2 filiwn ar gyfer cynlluniau adfywio.

Yn 2002, sefydlodd y cyngor a Llywodraeth Cymru gwmni adfywio trefol o'r enw Newport Unlimited.

Er mwyn cyflawni'r nod o adfywio economaidd, cynhaliwyd nifer o fentrau ar y cyd gan gynnwys datblygu Doc yr Hen Dref a rhentu Alacrity House allan fel canolfan hybu busnesau.

O ganlyniad, codwyd mwy na £2.3 miliwn ar gyfer y cyngor.

Ym mis Mehefin, cafodd protocol ei gymeradwyo gan y cabinet a fydd yn galluogi'r arian i gael ei wario yn y ddinas gyda chymeradwyaeth Llywodraeth Cymru.

Cytunwyd y dylai'r holl arian gael ei wario ar ddigwyddiadau adfywio economaidd yng Nghasnewydd.

Byddai gwario'r arian hwn yng Nghasnewydd yn cefnogi nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) - adeiladu dinas fwy ffyniannus a gwydn gyda chymunedau cynaliadwy a chydlynus drwy greu a chynnal swyddi, atal dirywiad pellach mewn ardaloedd allweddol a gwella'r amgylchedd ffisegol.

Dywedodd y Cynghorydd Debbie Wilcox, Arweinydd Cyngor Dinas Casnewydd:

"Mae gennym hanes balch o adfywio yn y ddinas ond gwyddom fod llawer mwy y gellid ei wneud.

"Bydd rhyddhau cyllid a gafodd ei greu dan nawdd y fenter flaenorol, Newport Unlimited, yn gwneud cyfraniad sylweddol tuag at y gwaith parhaus hanfodol hwn.

"Y bwriad yw, gyda chymeradwyaeth Llywodraeth Cymru, y caiff yr holl arian ei ddefnyddio ar gyfer gweithgareddau adfywio economaidd o fewn y ddinas.

"Rydym am adeiladu Casnewydd fwy ffyniannus drwy greu a chynnal cyflogaeth o ansawdd da ar gyfer ein dinasyddion, gan adfywio ardaloedd yn y ddinas a gwella'r amgylchedd ar gyfer trigolion a'r rhai sy'n gweithio yma."

Ers i Newport Unlimited ddod i ben, mae gwaith adfywio yn y ddinas wedi parhau, gan gynnwys drwy'r rhaglen Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid sydd wedi gweld adeiladau nodedig yn cael eu defnyddio unwaith eto neu'n cael eu gwella'n sylweddol.

Mae prosiectau llwyddiannus wedi cynnwys addasu'r hen King's Hotel yn fflatiau a swyddfeydd canol dinas deniadol ac adfer ffasadau adeiladau ger Mariner's Green.

CASGLU SBWRIEL

Gall trigolion a hoffai drefnu sesiynau casglu sbwriel yn eu cymdogaeth gael help gan Cadwch Gymru'n Daclus a fydd yn sefydlu grŵp o wirfoddolwyr at ddibenion yswiriant.

Caiff bagiau a menig eu darparu fel arfer ar gyfer unrhyw un sydd â diddordeb. Y cyswllt cymunedol yw Steve Chamberlain. Anfonwch e-bost at **steve.chamberlain@keepwalestidy.cymru** i gael rhagor o fanylion.

GRŴP CYMORTH GOFALWYR SY'N BERTHNASAU

Gall pobl sy'n gofalu am blant a wahanwyd o'u rhieni gael cymorth drwy ddod yn aelodau o Grŵp Cymorth Gofalwyr sy'n Berthnasau (Casnewydd).

Mae gofalwr sy'n berthynas yn oedolyn sy'n gofalu am blentyn neu blant perthynas neu ffrind yn llawn amser.

Y grŵp mwyaf o ofalwyr sy'n berthnasau yw neiniau a theidiau ond mae llawer o rai eraill gan gynnwys brodyr a chwiorydd hŷn, modrybedd ac ewythredd, perthnasau pellach, ffrindiau'r teulu a chymdogion. Gall hyn fod yn drefniant parhaol neu dros dro, ffurfiol (drwy drefniadau llys) neu anffurfiol.

Mae Plant yng Nghymru a Theuluoedd yn Gyntaf (drwy Swyddog Cyfranogiad Plant GAVO) wedi dod ynghyd i sefydlu'r grŵp a fydd yn rhedeg bob mis o Ganolfan Casnewydd ar ail ddydd Mawrth pob mis rhwng 10am a hanner dydd.

Bydd y grŵp anffurfiol hwn yn rhoi cyfle i ofalwyr sy'n berthnasau gwrdd, trafod a dysgu oddi wrth eraill mewn sefyllfa debyg ac i gynnig cymorth emosiynol ac ymarferol i'w gilydd, gan helpu i leddfu rhywfaint ar yr unigrwydd y mae llawer o ofalwyr yn ei deimlo.

Mae'r cyfarfod nesaf ar 15 Awst gyda rhai eraill wedi'u trefnu ar gyfer 12 Medi a 10 Hydref. Am ragor o wybodaeth anfonwch e-bost at **Bernadette.byrne@gavowales.org.uk neu Deborah.smith@childreninwales.org.uk**

MWY O ARIAN AR GYFER CYNLLUN TROI TAI'N GARTREFI

Gyda chynifer o bobl angen tai, mae tai gwag yn wastraff adnoddau. Gall cynllun Troi Tai'n Gartrefi Cyngor Dinas Casnewydd, a ariennir gan Lywodraeth Cymru, ddarparu benthyciadau di-log er mwyn helpu perchenogion sicrhau bod eiddo'n cael eu defnyddio fel cartrefi eto drwy eu gwerthu neu eu gosod.

Gall prosiectau amrywio o adnewyddu tŷ unigol i addasu eiddo masnachol gwag yn fflatiau hunangynhwysol, yn amodol ar ganiatâd cynllunio.

Uchafswm benthyciad yw £25,000 fesul uned, gydag uchafswm o £150,000 fesul benthyciwr, yn dibynnu ar y gwerth ecwiti sydd ar gael. Mae benthyciadau er mwyn gosod yn ad-daladwy ar ôl tair blynedd ac mae benthyciadau er mwyn gwerthu yn ad-daladwy pan werthir yr eiddo ond o fewn dwy flynedd.

Am ragor o wybodaeth am y cynllun Troi Tai'n Gartrefi ewch i **www.newport.gov. uk/ emptyhomes**

Os hoffech siarad â rhywun ynglŷn â'r cynllun, ffoniwch **01633 656656** a gofynnwch am gael siarad â'r tîm strategaeth tai.

GALLWCH LAWRLWYTHO'R AP SŴN

Gall trigolion sy'n dioddef niwsans sŵn, boed hynny oddi wrth gymydog, busnes lleol neu gi'n cyfarth, bellach lawrlwytho ap i helpu i gofnodi tystiolaeth i ategu cwyn.

Lansiodd Cyngor Dinas Casnewydd yr Ap Sŵn ym mis Mai. Mae'r ap yn ddwyieithog ac ar gael i drigolion â ffôn clyfar neu lechen a gallant ei lawrlwytho am ddim drwy ymweld â **www.thenoiseapp.com** neu drwy chwilio ar-lein am The Noise App RHE yn Google Play neu App Store Apple.

Bydd angen i drigolion greu cyfrif er mwyn defnyddio'r ap i wneud cwynion o'r fath.

Mae'r ap yn eich galluogi i wneud recordiad 30 eiliad o hyd, cwblhau ffurflen a chyflwyno adroddiad ar-lein.

Nid yw defnyddio'r ap yn disodli ymweliadau monitro sŵn gan swyddogion y cyngor i bennu p'un a oes niwsans sŵn yn bodoli. Fodd bynnag, mae'n ei gwneud yn haws i drigolion ddarparu tystiolaeth i ategu eu honiadau.

Gall y cyngor ymchwilio i niwsans sŵn sy'n deillio o offer mwyhau fel cerddoriaeth, setiau teledu, gweithgareddau DIY, cŵn yn cyfarth a sŵn o eiddo masnachol.

DIRWYO LANDLORD O DAN GYFRAITH NEWYDD



Mae Cyngor Dinas Casnewydd wedi sicrhau'r gollfarn gyntaf o dan gynllun Rhentu Doeth Cymru ar ôl i landlord yng Nghasnewydd gael dirwy o £4,400 am weithredu tŷ amlfeddiannaeth peryglus, heb drwydded.

Robert Ivor Grovell o Tram Lane, Llanfrechfa, Cwmbrân yw'r landlord cyntaf yng Nghymru i gael ei erlyn am fethu â bod yn drwyddedig o dan gynllun Rhentu Doeth Cymru, cynllun Llywodraeth Cymru sy'n helpu i wella safonau yn y sector rhentu preifat.

Mae Rhentu Doeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i landlordiaid preifat gofrestru ac i landlordiaid rheoli ac asiantiaid ddod yn drwyddedig gyda'r cynllun.

Ers 23 Tachwedd 2016, mae landlordiaid ac asiantiaid sy'n methu â chydymffurfio â Rhentu Doeth Cymru yn torri'r gyfraith.

Cafodd Mr Grovell ei erlyn o dan Adran 7(5) o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 yn Llys Ynadon Casnewydd am fethu â chydymffurfio.

Roedd y drosedd yn un ymhlith nifer a gafodd eu dwyn yn ei erbyn gan Gyngor Dinas Casnewydd am droseddau'n ymwneud â thai mewn eiddo ar Orchard Street yng Nghasnewydd, y pleidiodd Mr Grovell yn euog iddynt.

Yn ystod archwiliad o'r eiddo gan swyddogion lechyd yr Amgylchedd ym mis Rhagfyr 2016, datgelwyd problemau difrifol gyda dyluniad a chynllun yr eiddo ac roedd llwybr ddianc o'r eiddo wedi'i flocio gan ddodrefn ac eitemau eraill, a allai fod wedi peryglu bywyd tenantiaid petai tân. At hynny, roedd yr eiddo'n cael ei ddefnyddio fel tŷ amlfeddiannaeth ond doedd Mr Grovell ddim wedi gwneud cais am y drwydded angenrheidiol oddi wrth Gyngor Dinas Casnewydd.

Cadarnhaodd gwiriadau Rhentu Doeth Cymru fod Mr Grovell wedi'i gofrestru ond nid oedd yn drwyddedig, er ei fod yn ymgymryd â gweithgareddau rheoli ar gyfer yr eiddo.

Ers yr archwiliad, mae wedi cwblhau hyfforddiant Rhentu Doeth Cymru ac wedi gwneud cais am drwydded.

Dywedodd Bethan Jones, Rheolwr Gweithredol Rhentu Doeth Cymru Cyngor Caerdydd, yr awdurdod trwyddedu unigol ar gyfer Cymru gyfan: *"Mae'r achos hwn yn garreg filltir gwirioneddol ar gyfer Rhentu Doeth Cymru, gan mai dyma'r landlord cyntaf i gael ei erlyn am fethu â chydymffurfio. "Mae'r erlyniad yn anfon neges gref i landlordiaid sydd ddim yn cydymffurfio sy'n parhau i dorri'r gyfraith a dylai'r rhai sydd ddim yn cydymffurfio ddod ymlaen nawr er mwyn osgoi camau gweithredu yn eu herbyn."*

Cafodd Mr Grovell gyfanswm dirwy o £4,400 a gorchmynnwyd iddo dalu £1,000 o gostau a £170 o dâl i ddioddefwyr.

Canmolodd y Cynghorydd Ray Truman, Aelod Cabinet dros Drwyddedu a Rheoleiddio yng Nghyngor Dinas Casnewydd, y swyddogion am eu hymroddiad wrth ddod ag erlyniad o'r fath i'r llys.

"Roedd hyn yn achos difrifol o dorri rheoliadau yn ymwneud â thŷ amlfeddiannaeth lle'r oedd y preswylwyr yn wynebu risg oherwydd methiant y landlord i gydymffurfio â rheoliadau hanfodol sydd â'r nod o gadw pobl yn ddiogel yn eu cartrefi.

"Dylai'r achos llys hwn hefyd atgoffa landlordiaid o'r angen i fod â thrwydded ar gyfer tai amlfeddiannaeth. Gallai methu â gwneud hynny arwain at y llys yn rhoi dirwy amhenodol.

"Bydd Cyngor Dinas Casnewydd yn parhau i fod yn wyliadwrus wrth sicrhau bod landlordiaid ac asiantiaid yn cadw at y rheolau sy'n cwmpasu eu heiddo sydd ar osod. Llongyfarchiadau i'r swyddogion am ddod â'r achos i ben yn llwyddiannus," meddai.

CEISIADAU MEITHRIN BELLACH AR AGOR

Mae ceisiadau ar gyfer lle meithrin ym mis Medi 2018 (meithrinfeydd a gynhelir yn unig) bellach ar agor.

Mae plant yn gymwys i gael lle meithrin yn y tymor yn dilyn eu pen-blwydd yn dair oed ac yng Nghasnewydd gall hyn fod mewn dosbarth meithrin/ysgol a gynhelir, neu mewn lleoliad nas cynhelir (cylch chwarae neu feithrinfa ddydd breifat).

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 18 Medi 2017.

Mewn newid i flynyddoedd blaenorol, nid oes angen i rieni bellach gyflwyno cais ar wahân am le ar gyfer plant sy'n troi'n 3. Gellir cynnig lleoedd ar gyfer plant sy'n troi'n 3 i blant a anwyd rhwng 1 Medi a 31 Mawrth, gyda mis Ionawr neu Ebrill 2018 fel dyddiad dechrau meithrin.

Mae'r cyngor yn gyfrifol am dderbyniadau i ysgolion meithrin cymunedol ond i gael lle meithrin mewn ysgol wirfoddol a gynorthwyir neu leoliad nas cynhelir, dylid holi'r ysgol neu'r darparwr yn uniongyrchol.

Mae lleoedd cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg ar gael.

I gael rhagor o wybodaeth ac i wneud cais ewch i **www.newport.gov.uk/ schooladmissions**

ADEILADU DINAS SY'N GYFEILLGAR I DDEMENTIA

Mae aelodau Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Casnewydd, Casnewydd yn Un, wedi dod ynghyd i roi hwb i ymdrechion i wneud Casnewydd yn ddinas sy'n gyfeillgar i ddementia.

Mae rhai partneriaid eisoes wedi sicrhau achrediad unigol neu ar fin ei sicrhau, drwy gynllun Cymdeithas Alzheimer, ond drwy gydweithio'n agosach y nod yw gwella gwasanaethau a dealltwriaeth o anghenion y rhai sydd â dementia yn fwy cyflym ac yn gyson ledled y ddinas.

Mae dementia yn bryder mawr gydag un ym mhob 14 o bobl dros 65 oed yn byw gyda'r cyflwr yn ôl adroddiadau a disgwylir i'r niferoedd hynny godi.

Yng Nghasnewydd, cyflwynwyd hyrwyddwyr cyfeillgar i ddementia, mae grwpiau cymorth, caffis sy'n gyfeillgar i ddementia a grwpiau gofalwr newydd yn cael eu datblygu, a chaiff proffil materion o'r fath ei godi drwy waith pob partner.

Mae sesiynau ymwybyddiaeth cyfeillion dementia wedi cael eu cyflwyno i dros 2,000 o bobl mewn sefydliadau fel Cymdeithas Adeiladu Sir Fynwy, Cyngor Dinas Casnewydd, Derwen, Seren, Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru a Heddlu Gwent.

Ysgol Uwchradd Gatholig Joseff Sant hefyd oedd y gyntaf yng Nghymru i gael achrediad cyfeillgar i ddementia gyda phob disgybl ac aelod o staff yn derbyn hyfforddiant ymwybyddiaeth cyfeillion dementia.

Dywedodd y Cynghorydd Debbie Wilcox, Arweinydd Cyngor Dinas Casnewydd ac aelod o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus:

"Mae holl bartneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn gefnogol iawn ac yn cydnabod y gallwn gael cymaint mwy o effaith ledled y ddinas drwy weithio mewn ffordd fwy cydgysylltiedig."

ANRHYDEDD FRENHINOL I GRŴP BALCHDER PILLGWENLLI

Llongyfarchiadau i holl aelodau'r grŵp cymunedol Balchder Pillgwenlli sydd wedi ennill Gwobr y Frenhines am Wasanaeth Gwirfoddol.

Wedi'i gefnogi gan Gyngor Dinas Casnewydd a menter Trefi Taclus Llywodraeth Cymru, mae'r grŵp yn adnabyddus am ei ymrwymiad i fynd i'r afael â thaflu sbwriel a thipio anghyfreithlon ym Mhillgwenlli.

Sefydlwyd y grŵp gan Paul Murphy sydd hefyd wedi sicrhau cefnogaeth gan Cartrefi Dinas Casnewydd, sy'n rhoi arian i'r grŵp ar gyfer offer, gwirfoddolwyr ac i dalu am gostau casglu a gwaredu gwastraff.

Mae grwpiau eraill hefyd yn cynnig cymorth pan gynhelir digwyddiadau fel casglu sbwriel cymunedol.

Canmolodd y Cynghorydd Roger Jeavons, Aelod Cabinet dros adran Gwasanaethau Stryd Cyngor Dinas Casnewydd, waith gwirfoddolwyr Balchder Pillgwenlli a'u llongyfarch ar eu gwobr.

"Fel cyngor rydym yn gwerthfawrogi'r holl waith caled sy'n cael ei wneud gan grŵp Balchder Pillgwenlli sy'n ddiflino yn ei ymdrechion i lanhau'r gymdogaeth ac mae'n wirioneddol haeddu'r wobr.

"Llongyfarchiadau i bawb sy'n rhan o'r grŵp, mae'n gyflawniad gwych."

Diolchodd Mr Murphy hefyd i'w holl wirfoddolwyr ac aelodau pwyllgor Balchder Pillgwenlli.

Dywedodd: *"Drwy gydweithio ni yw'r gymuned gyntaf yng Nghasnewydd i dderbyn Gwobr y Frenhines am Wasanaeth Gwirfoddol.*

"Bedair blynedd yn ôl ni fuaswn wedi breuddwydio am fod yn y sefyllfa hon heddiw. Diolch yn fawr i'r holl sefydliadau sydd wedi ein cefnogi dros y blynyddoedd a diolch yn arbennig i Ganolfan Mileniwm Pillgwenlli am ei chymorth a'i lletygarwch dros y blynyddoedd."

Ychwanegodd Rob Lynbeck, cyfarwyddwr gweithrediadau Cartrefi Dinas Casnewydd ei longyfarchiadau.

"Rydym yn hapus i fod wedi gweithio gyda Balchder Pillgwenlli a'i gefnogi ers i'r grŵp gael ei greu ac mae'n llawn haeddu'r wobr hon. Mae Balchder Pillgwenlli yn grŵp ymroddedig o bobl sy'n benderfynol o wneud gwahaniaeth yn eu cymuned a dylid llongyfarch eu gwaith parhaus," meddai

DYSGWCH BETH SY'N NEWYDD YN Y FARCHNAD

Mae Marchnad Casnewydd wedi croesawu nifer o fasnachwyr newydd i'w rhestr o fusnesau annibynnol sefydledig.

Mae Angharad Wrigley a'i chwaer Katherine wedi agor Market Bakery tra mae'r uwchgylchwr Natasha Graves, sy'n creu eitemau allan o goncrid, hefyd ar agor am fusnes.

Mae Susanna Johnson wedi agor Jenia sy'n gwerthu dillad plant ail-law, mae Spice and Dice yn siop lysiau newydd ac mae Andrew Coley yn gwerthu hen bethau a bric-a-brac yn Ace of Spades.

Mae Marchnad Casnewydd yn cynnig cigyddion o'r radd flaenaf, ffrwythau a llysiau ffres, pobyddion, dillad, anrhegion, cardiau a mwy ac mae wedi bod yn ganolog i fywyd Casnewydd ers bron i 150 mlynedd.

Yn gynharach eleni, cynhaliodd y cyngor a Norse Casnewydd gystadleuaeth Ffau'r Llewod gan gynnig gwobrau o stondin am flwyddyn neu chwe mis. Mae'r enillwyr a'r rhai a ddaeth yn ail ar fin dechrau masnachu'n fuan iawn, felly cadwch lygad allan amdanynt pan fyddwch yn ymweld â'r farchnad.

Gellir rhentu gofod am gyn lleied â £10 y dydd. Caiff stondinau eu gosod ar drwydded wythnos ac mae rhent yn daladwy bob wythnos.

Gellir llogi'r oriel i fyny'r grisiau yn y farchnad ar gyfer digwyddiadau hefyd.

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â Gwasanaethau Eiddo Norse Casnewydd dryw anfon e-bost at **property.services@newportnorse.co** neu ffoniwch 01633 240450

Yn 2013, cwblhawyd prosiect gwerth £1 filiwn i adnewyddu rhan o'r adeilad rhestredig gradd II. Crëwyd mynedfa ganolog newydd gyda dwy uned newydd smart bob ochr. Mae'r bragdy clodwiw Tiny Rebel bellach yn un ohonyn nhw.

Yn gynharach eleni, cychwynnodd Cyngor Dinas Casnewydd raglen marchnata a gwelliannau newydd er mwyn hybu masnach yn y farchnad dan do hanesyddol.

Caiff digwyddiadau eu cynnal yn yr oriel i fyny'r grisiau er mwyn annog rhagor o ymwelwyr gan gynnwys elfennau o ŴVyl Fwyd boblogaidd Casnewydd, marchnad grefft, ffeiriau recordiau a chomics a dawnsfeydd te.

DIGWYDDIADAU

Mae llawer o bethau i'w gweld a'u gwneud dros y misoedd nesaf yng Nghasnewydd, gan gynnwys…

CANOL Y DDINAS
www.newportlive.co.uk
22 a 23 Gorffennaf
Penwythnos o hwyl i'r teulu am ddim Big Splash o amgylch canol y ddinas yn y parthau Big Splash arbennig gan gynnwys Glan yr Afon, Friars Walk, Canolfan Siopa Ffordd y Brenin, parth Newport NOW ar y Stryd Fawr/ Commercial Street a'r rhodfa glan yr afon rhwng y Brifysgol a The Wave

THEATR GLAN YR AFON
www.newportlive.co.uk/riverfront
24-28 Gorffennaf
Ysgol Ddawns yr Haf Ballet Cymru Wales.

Gorffennaf ac Awst
Clybiau gwyliau gan gynnwys Mincraft ar ddydd Llun, Clwb Ffilm ar ddydd Mawrth a gweithdai tecstilau bach.

7 Hydref
Mae Cerddorfa Casnewydd yn gwahodd offerynwyr i weithdy cerddoriaeth gyfoes o Awstralia. Dechrau am 10am. Am 5pm bydd perfformiad am ddim o'r darnau i'r rhai sy'n dwli ar gerddoriaeth.

Dylid archebu lle drwy swyddfa docynnau Glan yr Afon. Ariennir y digwyddiad hwn yn rhannol gan Tŷ Cerdd, Llywodraeth Cymru a'r Loteri Genedlaethol. Am ragor o fanylion, cysylltwch â **newportorchestra@hotmail.com**

AMGUEDDFA AC ORIEL GELF CASNEWYDD
www.newport.gov.uk/artgallery
Ar agor o ddydd Mawrth i ddydd Gwener, rhwng 9:30am a 5pm. Diwrnod allan am ddim ar gyfer y teulu.

21 Medi
Sgwrs amser cinio: Gofalu am gasgliad yr Amgueddfa 1pm.

THEATR DOLMAN
www.newport.gov.uk/artgallery

Dydd Sadwrn, 2 Medi
Noson o Ganeuon gyda Steve Bissex Williams gan Gymdeithas Operatig Casnewydd.